EISTEDDFOD GADEIRIOL TREFEGLWYS 2022

Ar ôl seibiant o dair mlynedd cynhaliwyd yr 105ed Eisteddfod a drefnwyd gan Pwyllgor Eisteddfod Trefeglwys ar ddydd Sadwrn Hydref 1af yn y Neuadd Goffa yn Nhrefeglwys.
Y Beirniaid eleni oedd y gŵr a gwraig o Beniel, Caerfyrddin - Sue Hughes y beirniad Cerdd a Geraint Hughes yn beirniadu'r Llefaru. Ruby Grigg o'r Drenewydd bu'n beirniadu'r Dawnsio. Roedd y gwaith llaw i'w weld yn addurno'r Neuadd Fwyta. Y Beirniaid yn yr adrannau yma oedd, Crefftau – Wendy Wigley, Llangurig, Llawysgrifen – Eryl Douglas Jones, Trefeglwys. Penri Jones, Glantwymyn bu'n beirniadu'r adran Llenyddiaeth yn yr eisteddfod.
Bu'r Beirniaid yn brysur iawn trwy'r dydd yn arbennig yng ngyfarfod y prynhawn gyda hyd at deuddeg o blant mewn rhai cystadlaethau. Cafwyd cefnogaeth dda iawn o'r ysgol leol, Ysgol Dyffryn Trannon. Enillwyd y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol gan Elsi Hughes o Llanidloes a Thlws Catrin Alwen am yr unawdydd gorau yng ngyfarfod y pnawn gan Gethin Evans, Trefeglwys - mae'n siwr bydd dyfodol disglair i'r ddau ohonynt. Tom Gethin enilloddd y cwpan yn yr adran grefftau am greu llun oedd yn portreadu "Dros yr Enfys"
Caroline Harries, Prifathrawes yr ysgol, Bethan Lloyd Owen, Llanidloes, a Gareth Jenkins o'r Amwythig bu yn cadw trefn ar gystadlaethau'r llwyfan, gydag Alwena Nutting, Aberhafesp yn cyfeilio yng nghyfarfod y prynhawn a Sian Davies, Penybont-ar-ogwr yng nghyfarfod yr hwyr.
Yn ystod cyfarfod yr hwyr cyflwynodd Roger Evans, ar ran teulu y diweddar Gwynfryn Evans, tlws arbennig i'r Eisteddfod i'w gyflwyno i'r cystadleuydd gorau yn yr adran gerdd yng nghyfarfod yr hwyr. Bu Gwynfryn yn arwain yn yr Eisteddfod am dros bedwar deg o flynyddoedd. Yr enillydd eleni oedd Gwynn Jones o Lanafan am ei gyflwyniad wrth ganu emyn dros chwedeg a hefyd yr unawd Gymraeg.
Cynigwyd Tlws y Gadair eleni am gerdd ar y testun"Cariad". Daeth wyth o gerddi i fewn i'r gystadleuaeth, gyda Dafydd Emrys Williams o Langernyw yn fuddugol. Roedd ei gerdd yn sôn am y cariad a gafodd wrth dyfu fyny ac wedyn yn cael ei fywyd wedi'i drawsnewid wrth gyfarfod a'i bartner gydol oes.
Y Beirniad Pryderi Jones bu yn arwain seremoni'r cadeirio, ac ar ôl ei feirniadaeth cyrchwyd y Bardd buddugol i'r llwyfan gan Joyce Smithies a Susan Williams. Ceidwad y Cledd oedd Iwan Owen, gydag Owen Lloyd Jones yn canu Cân y Cadeirio. Bu Bethan Lloyd Owen a Margaret Jones yn cyfarch y Bardd.
Llywydd yr eisteddfod eleni oedd Cathrin Roberts o Brooks, merch leol sydd yn gyfrifydd ac yn wraig fferm gyda dau o blant bach. Bu hi yn sôn am y boddhad mae wedi ei gael wrth gystadlu mewn eisteddfodau yma yn Nhrefeglwys ac ym Mudiad y Ffermwyr Ieuanc. Dymunodd bob lwc i'r Eisteddfod yn y dyfodol.
Ar ddiwedd y noswaith gwnaed y diolchiadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Iwan Owen, ac yn sicr cafwyd diwrnod i'w gofio.

Canlyniadau

Unawd oed Meithrin
1. Nansi Jerman, Ysgol Dyffryn Trannon
2. George Davies, Ysgol Dyffryn Trannon
3. Ina Penri, Ysgol Dyffryn Trannon

Llefaru oed Meithrin
1. George Davies, Ysgol Dyffryn Trannon
2. Jac Sargant, Ysgol Dyffryn Trannon
3. Nansi Jerman ac Ina Penri, Ysgol Dyffryn Trannon

Unawd Bl 1 a 2
1. Mabon Davies, Ysgol Dyffryn Trannon 2. Elsi Hughes, Ysgol Dyffryn Trannon

Llefaru Bl 1 a 2
1. Elsi Hughes, Ysgol Dyffryn Trannon
2. Olia Griffith-Thomas, Ysgol Dyffryn Trannon
3. Dylan Sargant a Mabon Davies, Ysgol Dyffryn Trannon

Llefaru Bl 4 ac Iau
1. Winnie Bleasdale, Ysgol Dyffryn Trannon 2. Frankie Davies, Ysgol Dyffryn Trannon

Unawd Bl 6 ag Iau
1. Carys Turner, Ysgol Dyffryn Trannon 2. Gethin Evans, Ysgol Dyffryn Trannon

Llefaru Bl 6 ag Iau
1. Olivia Jones, Ysgol Dyffryn Trannon
2. Carys Turner, Ysgol Dyffryn Trannon
3. Ellis Thomas, Ysgol Dyffryn Trannon

Llefaru i Ddysgwyr Bl 6 ag iau 1. Leila Toy, Ysgol Dyffryn Trannon

Côr Plant
1. Cor Babanod Ysgol Dyffryn Trannon 2. Côr Iau Ysgol Dyffryn Trannon

Parti Cydlefaru 1. Parti Ysgol Dyffryn Trannon

Unawd Offerynol 1. William Beamond, Ysgol Dyffryn Trannon

Dawns Gyfoes Unigol Bl 6 ac Iau
1. Leila Toy, Ysgol Dyffryn Trannon 2. Carys Turner, Ysgol Dyffryn Trannon

Grŵp Dawns Gyfoes
1. Hanna a Leila, Ysgol Dyffryn Trannon
2. Katie ag Esme, Ysgol Dyffryn Trannon
3. Pum Prydferth, Ysgol Dyffryn Trannon

Unawd dan 18	1. Sioned Davies, Llidiartywaen	
Unawd Offerynol dan 18	1. Martha Jones Deklerk, Casgwent	
Unawd dan 30	1. Sioned Davies	
Llefaru dan 30	1. Meleri Morgan, Bwlchllan	
Unawd o Sioe Gerdd	1. Sioned Davies	2. Owen Lloyd Jones, Clatter
Canu Emyn dros 60	1. Gwynn Jones, Llanafan	2. Aled Jones, Commins Coch
Her Unawd	1. Barry Powell, Llanfihangel y Creuddyn	2. Efan Williams, Lledrod
Her Lefaru	1. Meleri Morgan	2. Maria Evans, Caerfyrddin
Unawd Gymraeg	1. Gwynn Jones	2. Barry Powell 3. Efan Williams
Darllen o'r Beibl	1. Meleri Morgan	2. Maria Evans a Joyce Smithies, Llanidloes
Cân Werin	1. Owen Lloyd Jones	2. Ian Davies, Llidiartywaen
Deuawd	1. Barry Powell ac Efan Williams	
Cerdd y Gadair	Dafydd Emrys Williams, Llangernyw	
Englyn	Dafydd Emrys	
Cyfansoddi Emyn	Mary Morgan, Llanrhystud	
Cân Ddigri	J.Meurig Edwards, Aberhonddu	
Stori Fer	J.Meurig Edwards	
Limrig	Alan Iwi, Didcot a Gareth Jenkins, Amwythig	
Cyfansoddi Emyn Dôn	Rhiannon Lewis, Cwmann	